Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

bwletin gweinyddiaeth etholiadol

Rhifyn 281 (Cymru) - 8 Hydref 2020

Pleidleisiau mis Mai 2021: cyhoeddi canllawiau

Rydym bellach wedi diweddaru a chyhoeddi ein canllawiau craidd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau cyn etholiadau cyfun y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Senedd a drefnwyd at fis Mai 2020 .

Yn ogystal, rydym wedi diweddaru ac ailgyhoeddi canllawiau cynllunio ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd Heddlu i gefnogi eu paratoadau at y pleidleisiau ym mis Mai 2021.

Mae'r cofnod newidiadau ar ddechrau pob adran y gwahanol canllawiau wedi ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed.

Megis yn ôl Bwletin 279, bydd y canllawiau craidd hyn yn parhau i fod ar gael yn eu fformat presennol (nad yw'n ddibynnol ar ddyddiad), ac nid ydynt wedi eu diwygio i adlewyrchu heriau penodol COVID-19. Yn hytrach, rydym yn darparu canllawiau ac adnoddau atodol i adlewyrchu'r gofynion penodol o ran rheoli pleidleisiau 2021 mewn modd diogel yng nghyd-destun COVID-19. Mae'r cyntaf o blith y canllawiau atodol hyn ar gynllunio ar gyfer y pleidleisiau eisoes wedi ei gyhoeddi, gydag adnoddau pellach i ddod yn cwmpasu rhannau allweddol y broses etholiadol, megis rheoli enwebiadau a threfniadau pleidleisio absennol, yn ogystal a'r modd y cynhelir y diwrnod pleidleisio a'r cyfri a'r dilysu.

Bydd ein canllawiau diweddaredig ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid sy'n sefyll yn etholiadau'r Senedd yn cael eu cyhoeddi wythnos nesaf. Mae canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau sy'n sefyll yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar gael fan hyn.

Rydym hefyd yn adolygu peth o'n hadnoddau cefnogi presennol ar gyfer y pleidleisiau uchod. Bydd rhai o'r adnoddau hyn, megis templedi briffio a dogfennau Cwestiynau Cyffredin, yn cael eu diweddaru i gynnwys gwybodaeth sy'n benodol at COVID-19. Byddwn yn eich diweddaru mewn Bwletin yn y dyfodol pan fydd rhain ar gael.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Pleidleisiau mis Mai 2021: cyhoeddi canllawiau

Gwybodaeth bellach am gyhoeddi canllawiau ac adnoddau cefnogi ar gyfer pleidleisiau mis Mai 2021.

Pleidleisiau mis Mai 2021: diweddariad ynghylch ein cynlluniau cyfathrebu ymwybyddiaeth gyhoeddus

Diweddariad ynghylch ein cynlluniau ymwybyddiaeth gyhoeddus ar gyfer pleidleisiau mis Mai 2021, gan gynnwys tri cham gweithgarwch a gynlluniwyd.

Rydym yn cyhoeddi bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael fan hyn. Gallwch hefyd danysgrifio i'n *Bwletinau Gweinyddu Etholiadol*.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cael ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n

Pleidleisiau mis Mai 2021: diweddariad ynghylch ein cynlluniau cyfathrebu ymwybyddiaeth gyhoeddus

Ymhellach at Fwletin 279, gallwn nawr roi rhagor o wybodaeth i chi ynghylch ein cynlluniau ymwybyddiaeth gyhoeddus ar gyfer pleidleisiau mis Mai 2021 a'r dull graddol y byddwn yn ei ddefnyddio. Bydd y dull graddol hwn yn ein galluogi i fod mor ymatebol â phosib i'r amgylchedd cyfredol, ar yr un pryd â chefnogi ein hystod eang o randdeiliaid.

Cam un: canol mis Hydref i ddiwedd mis Rhagfyr 2020
Ar hyn o bryd rydym yn datblygu adnoddau cyfathrebu i gefnogi eich gweithgarwch lleol, ac i'ch cadw rhag gorfod creu adnoddau, ac eich helpu i sicrhau negeseuon cydlynol. Dylunnir yr adnoddau hyn i gyfathrebu'r canlynol:

- Bydd gorsafoedd pleidleisio yn llefydd diogel i bleidleisio
- Bydd ystod o opsiynau pleidleisio
- Dylai'r rheiny y byddai'n well ganddynt bleidleisio trwy'r bost wneud cais yn gynnar

Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r mwyafrif o'r adnoddau ychwanegol erbyn dydd Gwener 16 Hydref a byddwn yn rhoi gwybod i chi mewn bwletin yn y dyfodol pan fyddant ar gael. Byddwn yn darparu:

- Templed datganiad i'r wasg sy'n cwmpasu'r negeseuon a ddisgrifir uchod
- Dogfen Cwestiynau Cyffredin i'ch cefnogi wrth ymateb i'r cwestiynau tebygol, lle bydd dull cyffredin ar draws y sector yn ddefnyddiol
- Posteri, gwe-faneri a delweddau cyfryngau cymdeithasol

Yn ystod y cam hwn, byddwn hefyd yn ymgysylltu â sefydliadau partner posib yn y gymdeithas sifil, a allai roi ffyrdd uniongyrchol i ni gyrraedd rhai o'r cynulleidfaoedd mwy bregus.

Cam dau: Mis Ionawr i ganol mis Mawrth 2021
Bydd gweithgarwch cam dau, sy'n debygol o gynnwys gwaith gyda'r cyfryngau a phartneriaethau, yn cael ei ddatblygu yn ystod cam un, a bydd wedi ei lywio gan wybodaeth am y canlynol:

- datblygiad y sefyllfa iechyd cyhoeddus
- lefel ymateb y cyhoedd i gyfathrebiadau cam un

Cam tri: canol Mawrth i ddiwrnod y bleidlais
Byddwn yn cynnal ein hymgyrch cofrestru pleidleiswyr 'Oes 5 munud gyda chi?' ar draws Cymru yr adeg hon. Bydd hysbysebu yn digwydd ar draws sianeli mawr amlgyfrwng ar-lein ac all-lein, gyda'r strategaeth lawn i'w datblygu dros yr wythnosau nesaf. Bydd yn cyd-daro ag anfon llyfryn gwybodaeth pleidleiswyr i bob aelwyd, a gweithgarwch sydd wedi ei dargedu at y grwpiau hynny sydd newydd eu rhyddfreinio.

Ochr yn ochr â hynny, byddwn yn gweithio'n agosach byth â sefydliadau partner gan gynnwys awdurdodau lleol. Bydd y perthnasau hynny yn arbennig o allweddol wrth gyflawni nid yn unig ein negeseuon cofrestru, ond hefyd negeseuon gwybodaeth pleidleiswyr mwy cymhleth. Rydym hefyd yn cynllunio at ddarparu

berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.

adnoddau newydd i'n rhanddeiliaid ym mis Chwefror ar gyfer camau cofrestru pleidleiswyr a gwybodaeth pleidleiswyr ein hymgyrch.

Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan wybodaeth ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â'n gweithgareddau gyda'r wasg a gwaith Cysylltiadau Cyhoeddus mewn meysydd allweddol.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2020